**CYLCHLYTHYR WYTHNOSOL YSGOL GLANRAFON'S *WEEKLY NEWSLETTER.***

**WYTHNOS YN DIWEDDU/*WEEK ENDING:* 02.10.20**

Mae'n hyfryd cael dweud eto yr wythnos hon fod pethau yn mynd yn hwylus iawn yn yr ysgol yn ystod y cyfnod anodd hwn, a hynny oherwydd cyd weithrediad pawb sy'n rhan o gymuned Ysgol Glanrafon. Mae'r Cylchlythyr hwn yn nodi rhai pwyntiau pwysig eto mae angen i ni atgoffa'n gilydd ohonynt, ac ychydig o bethau sy'n newid.

*It's lovely to be able to say again this week that things are going smoothly in school during this difficult time, and this is due to everyone's co-operation within Ysgol Glanrafon's community. This Newsletter again notes some important points that we need to remind ourselves of, as well as notification of a few changes.*

## CYFYNGIADAU PELLACH – *FURTHER RESTRICTIONS.*

Er gwybodaeth i chi, dyma'r ddolen i weld canllawiau, trwy gyfrwng cwestiwn ac ateb, ar y cyfyngiadau pellach a ddaeth i rym am 6 o'r gloch neithiwr ar gyfer rhai o siroedd y gogledd gan gynnwys Sir y Fflint -

https://gov.wales/flintshire-county-council-lockdown-frequently-asked-questions

*For your reference, above is the link to see guidelines, by means of questions and answers on the further restrictions relevant from 6 p.m. last night for some of the North Wales counties including Flintshire.*

## CADW PELLTER CYMDEITHASOL – *MAINTAINING SOCIAL DISTANCING.*

Fe'n cynghorir yn rheolaidd mai un o'r dulliau mwyaf effeithiol o leihau'r risg o ymestyn y feirws yw i gadw pellter cymdeithasol o ddwy fedr oddi wrth eraill. Fe'ch hatgoffir yn garedig i geisio cofio gwneud hynny BOB AMSER wrth aros tu allan yn y bore neu ar ddiwedd y dydd os gwelwch yn dda.

*We are constantly reminded that one of the most effective ways of preventing the spread of the virus is to maintain social distance of 2 metres apart from each other. You are kindly reminded to try to do this AT ALL TIMES whilst waiting outside at the beginning and end of the school day please.*

## DILLAD I'R YSGOL – *CLOTHES FOR SCHOOL.*

Gofynnir i bawb wisgo set o ddillad glân bob dydd os yw hynny'n ymarferol bosib os gwelwch yn dda. O'r wythnos nesaf ymlaen, **NI** fydd y disgyblion yn dod yn eu dillad eu hunain ar ddydd Mercher, ac yn gwisgo gwisg ysgol bob dydd ar wahan i'r un pan fo eu blynyddoedd dysgu yn gwisgo dillad Addysg Gorfforol, sef fel a ganlyn:

Llun/*Mon* – Bl/*Yrs* 1 & 2 Mawrth/*Tues.* – Bl/*Yrs* 3 & 4 Iau/*Thurs* – M a D/*N & R*
*Gwen/Fri* – Bl/*Yrs* 5 & 6.

*Everyone is asked to wear a clean set of clothes every day if this is practically possible please. From next week onwards, pupils **WILL NOT** be coming in their own clothes on a Wednesday,*

*and will wear their school uniform every day apart from the one that their year groups are having Physical Education sessions as shown above, when they will wear their P.E kit.*

Gyda'r tywydd yn oeri rwan, gofynnir i'r holl blant gofio dod â chôt i'r ysgol bob dydd i'w gwisgo pan fyddant y tu allan.

*With the weather getting colder now, all the children are asked to bring a coat to school to wear whilst they go outside.*

## LLYFRAU DARLLEN – *READING BOOKS.*

A wnewch chi sicrhau fod y plant yn dychwelyd unrhyw lyfrau darllen o eiddo'r ysgol yn ôl cyn gynted ag sydd bosib os gwelwch yn dda, gan fod nifer fawr o lyfrau yn brin yn y gwahanol ddosbarthiadau. Mae'n hynod bwysig fod pob llyfr yn cael ei ddychwelyd i'r ysgol fel mater o frys os gwelwch yn dda.

*Would you please ensure that the children return any reading books belonging to the school as soon as possible, as there are a number of missing books in the classes. It's essential that every book is returned to school as a matter of urgency please.*

## CYFRIFON HWB A SEE SAW – *ACCOUNTS.*

A fyddai pawb cystal â gwirio cyfrifon Hwb (Cyfnod Allweddol 2) a SeeSaw (Cyfnod Sylfaen) eu plant os gwelwch yn dda. Mae angen i ddisgyblion Blynyddoedd 3,4,5 a 6 allu mewngofnodi i Hwb ac yna mynd i Teams. Mae angen i rieni y Derbyn, Blwyddyn 1 a 2 allu mynd ar broffil eu plentyn o fewn y dosbarth. Os oes unrhyw broblem cofiwch gysylltu gyda Mrs Huws ar huwse@hwbmail.net

Mae'n bwysig bod hyn yn ei le rhag ofn y byddai raid i swigen o fewn yr ysgol orfod cau ar fyr rybudd, gan mai ar y ddau blatfform digidol yma y byddai gweithgareddau Dysgu o Bell yn cael eu rhannu.

*We ask everyone to check their children's Hwb (Key Stage 2) and SeeSaw (Foundation Phase) accounts please. Years 3,4,5 and 6 pupils need to be able to log in to Hwb and then go on to Teams. Reception, Years 1 and 2 parents need to be able to access their child's profile within their class. If you have a problem with either, please contact Mrs Huws on huwse@hwbmail.net*

*It's important that this is all in place in case a bubble had to close at short notice, as these are the two digital platforms that the Distance Learning tasks would be shared.*

## GWAITH CARTREF - *HOMEWORK*

Bydd y tasgau Gwaith Cartref yn dechrau yr wythnos nesaf. Ni fydd angen anfon unrhyw bapur/ffeil i'r ysgol gan fod hwnnw hefyd i'w gofnodi gan ddefnyddio Teams a See Saw.

*Homework tasks will re-commence next week. No paper/file will need to be sent to school as this also will be recorded using Teams and SeeSaw.*

## **PARCIO – *PARKING.***

Yn anffodus, mae'n parhau i ddod i'n sylw fod yna rai yn parcio mewn mannau na ddylent wneud megis corneli peryglus, ffordd breifat, llinellau zig zag, neu ar fynedfeydd i dai preifat. Mae'n achosi problemau dirfawr pan fo rhai yn parcio yn yr arhosfan fysiau ar ddiwedd y dydd hefyd gan na all y bws ddod i'r man priodol i gasglu'r plant. RHAID cadw'r arhosfan fysiau yn glir er mwyn rhoi lle i'r bws barcio yn y man dynodedig.

*Unfortunately, it continues to be brought to our attention that people are parking where they shouldn't be, such as dangerous corners, private roadway, zig zag lines, or entrances to private houses. It causes serious traffic jams at the end of the day when people park on the designated bus stop, when the bus tries to park to pick up the children. It is ESSENTIAL that the bus stop is kept clear so that there is sufficient space for the bus to park in the designated area.*

## **DECHRAU A DIWEDD Y DYDD – *BEGINNING AND END OF THE DAY.***

Gofynnir yn garedig i rieni disgyblion Cyfnod Allweddol 2 sicrhau nad yw'r plant yn cyrraedd yr ysgol yn rhy gynnar yn y bore, rhag iddynt orfod sefyll ar y buarth am amser cyn i'r gloch ganu am 8.50 a.m. pan fydd y plant hynny yn gallu dod i mewn i'w dosbarthiadau.

A wnaiff pawb sicrhau hefyd nad oes unrhyw blentyn yn crwydro nac yn rhedeg o gwmpas tu allan tra maent yn aros i'r gloch ganu ar ddechrau a diwedd y dydd os gwelwch yn dda. Er mwyn lleihau'r niferoedd ar y buarth ar ddechrau a diwedd y dydd, gofynnir i bawb symud ymlaen a gadael y safle cyn gynted fyth ag y bo hynny'n bosib os gwelwch yn dda. Llawer o ddiolch i chi am eich cydweithrediad yn hyn o beth ymlaen llaw.

*The parents of Key Stage 2 pupils are kindly asked to ensure that the children do not arrive too soon in the morning, to avoid them having to stand on the yard for a long time before the first bell goes at 8.50 a.m. when those pupils can come into their classes.*

*Can everyone please ensure that no child wanders or runs outside whilst they wait for the bell at the beginning or end of the day please. In order to restrict the number of people on the yard at the beginning and end of the day, everyone is asked to move on and leave the site as soon as possible please. Many thanks beforehand for your co-operation in this matter.*

